

Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Atodiad 1 – Egwyddorion Cyllid Cynaliadwy



**Mae hon yn ddogfen Hawdd ei Deall gan
Llywodraeth Cymru**

Dyddiad cyhoeddi: 10 Medi 2024

Angen gweithredu: Ymatebion erbyn 03 Rhagfyr 2024


Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma



Mae'r fersiwn hon yn un hawdd ei deall. Mae'r geiriau a'u hystyr yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Ond efallai y bydd angen help arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen hon. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.



Efallai y bydd y geiriau mewn **ysgrifen las drom** yn newydd i chi neu'n anodd eu deall. Maen nhw wedi cael eu hesbonio ar ddiwedd y ddogfen o dan '**Geirfa**'. Os yw gair neu derm anodd yn cael ei ddefnyddio eto, bydd mewn **ysgrifen las arferol**. Mae ystyr yr holl eiriau mewn glas ar dudalen 7.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud 'ni', mae hyn yn golygu Llywodraeth Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn:

Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

Caerdydd CF10 3NQ

E-bost:

sustainable.finance@gov.wales



Cynnwys

Y Broblem	4
Manteision Natur	6
Rôl Cyllid	8
Y dyfodol	9
Ein Nodau	9
Ein Hegwyddorion	10
Cwestiynau	12
Geirfa	15

Daw'r lluniau yn y ddogfen hon o Photosymbols:
www.photosymbols.com/

Y Broblem



Mae natur yn dirywio'n gyflym ledled y byd. Mae hyn yn golygu bod llai o blanhigion ac anifeiliaid nag erioed o'r blaen. Mae hyn yn digwydd oherwydd nifer o weithgareddau dynol sy'n achosi **newid yn yr hinsawdd, llygredd**, a cholli **cynefinoedd**.



- **Newid yn yr hinsawdd:** Mae llosgi tanwydd ffosil yn rhyddhau **nwyon tŷ gwydr** fel carbon deuocsid i'r atmosffer, gan ddal gwres a gwneud i'r blaned gynhesu. Mae'r cynhesu hwn yn newid y tywydd, yn toddi rhewlifoedd a llenni iâ, ac yn codi lefelau'r môr, gan niweidio **cynefinoedd** naturiol a bywyd gwyllt.



- **Llygredd:** Gall llygredd aer, dŵr a phridd i gyd niweidio bywyd gwylt ac **ecosystemau**. Gall llygryddion ddod o ffatrioedd, cerbydau a ffermio. Er enghraifft, gall llygredd aer asideiddio glaw, gan niweidio planhigion ac anifeiliaid sy'n byw mewn pyllau, afonydd a'r môr. Gall llygredd dŵr halogi dŵr yfed a lladd pysgod. Gall llygredd pridd ei gwneud hi'n anodd i blanhigion dyfu neu i blanhigion aros yn iach.
- Colli **cynefinoedd**: Mae bodau dynol yn dinistrio **cynefinoedd** naturiol trwy ddatgoedwigo, ehangu trefi a dinasoedd, a newidiadau defnydd tir eraill. Pan fydd **cynefinoedd** yn cael eu dinistrio, mae planhigion ac anifeiliaid yn colli eu cartrefi a ffynonellau bwyd a lloches. Efallai y byddant yn cael trafferth i oroesi, neu hyd yn oed yn mynd yn **ddiflanedig**.

Manteision Natur



Mae nifer o ffyrdd o gysylltu â ni: Er enghraifft, gall natur ein helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd trwy amsugno carbon deuocsid o'r aer. Gall hefyd lanhau dŵr trwy hidlo llygryddion. Mae natur yn darparu cartrefi i lawer o wahanol blanhigion ac anifeiliaid.



- Newid yn yr Hinsawdd: Mae coedwigoedd, cefnforoedd a gwlyptiroedd fel **sinciau carbon**, gan amsugno **carbon deuocsid** o'r **atmosffer** a'i storio mewn planhigion a phridd. Mae hyn yn helpu i arafu cynhesu byd-eang.




- Dŵr Glân: Mae ecosystemau naturiol fel gwlyptiroedd a choedwigoedd yn gweithredu fel hidlyddion naturiol, gan dynnu **llygryddion** o ddŵr. Mae gwlyptiroedd yn hidlo dŵr wrth iddo lifo trwyddynt, gan ddal **llygryddion** mewn planhigion a phridd. Mae coedwigoedd hefyd yn helpu i hidlo dŵr glaw, gan gael gwared ar lygryddion cyn iddynt gyrraedd afonydd.



- **Bioamrywiaeth:** Mae angen amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid ar blaned iach. Bioamrywiaeth yw'r amrywiaeth o fywyd ar y Ddaear, ar bob lefel, o enynnau i rywogaethau i ecosystemau. Mae'n hanfodol ar gyfer iechyd ein planed ac er ein lles ein hunain. Mae bioamrywiaeth yn darparu bwyd, aer glân a dŵr i ni, meddyginiaeth, a llawer o fanteision eraill. Pan fydd rhywogaethau'n diflannu neu pan fydd poblogaethau'n dirywio, mae'n amharu ar gydbwysedd bregus ecosystemau a gall gael effeithiau cynyddol ar yr **amgylchedd**.


Rôl Cyllid



Natur yn Adfer



Er mwyn helpu natur i wella mae angen arian arnom i dalu am brosiectau. Nid oes gan y Llywodraeth ddigon o arian i dalu am yr holl brosiectau hyn ar ei phen ei hun. I helpu, rydym yn chwilio am ffynonellau arian eraill ar gyfer natur – mae hyn yn cynnwys gan fusnesau ac unrhyw un arall a allai fod eisiau defnyddio eu harian i gefnogi adferiad natur. Yr egwyddorion hyn yw helpu i sicrhau bod yr arian newydd hwn yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd gywir.



Rydym yn ceisio deall pam y gallai rhai sefydliadau fod yn ofnus i fuddsoddi mewn natur. Gallai fod rhai rhesymau, fel peidio â gwybod sut i gymryd rhan neu beidio â bod yn sicr o'r manteision.



Rydym yn gweithio gyda grwpiau amgylcheddol, busnesau a chymunedau i ddod o hyd i atebion. Rydyn ni hefyd yn dysgu o wledydd eraill sydd wedi cael llwyddiant wrth ddefnyddio buddsoddiad i amddiffyn natur.

Y dyfodol



Ein nod yw cael effaith gadarnhaol ar natur. Trwy weithio gyda'n gilydd, gallwn ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o ddiogelu ein hamgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ein Nodau



- Helpu Cymru i ffynnu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Gwarchod natur a'i defnyddio'n ddoeth.
- Cyrraedd ein nodau ar gyfer natur.
- Defnyddio arian yn ddoeth i helpu natur.



Ein Hegwyddorion



Rydym am ddod o hyd i'r ffyrdd gorau o fuddsoddi yn natur Cymru. Bydd yr egwyddorion hyn yn ein helpu i wneud dewisiadau da. Byddant yn cyd-fynd â deddfau a chynlluniau eraill.



1. **Rhannwch y buddion:** Dylai pawb rannu'r pethau da sy'n dod o ddefnyddio natur.




- Defnyddio natur mewn ffyrdd sy'n helpu pobl, bywyd gwylt a'r tir.
- Os ydych chi am wneud arian o natur, meddyliwch sut mae'n helpu pawb.
- Gweithio gydag eraill i rannu'r manteision.



2. **Gofalwch am bobl a natur:**

- Meddyliwch am sut y bydd eich cynlluniau'n effeithio ar bobl a natur.
- Sicrhewch fod eich cynlluniau'n dda i bawb a phopeth.



3. Cydweithio:



- Siarad â phobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal, gan sicrhau fod pawb yn cael cyfle i gymryd rhan.
- Rhannu gwybodaeth a gweithio gydag eraill.

4. Byddwch yn onest ac yn deg:

- Bod yn glir ynghylch yr hyn rydych yn ei wneud a pham.
- Dilynwch y rheolau a defnyddio dulliau da.
- Peidiwch â dweud eich bod yn helpu natur os nad ydych chi.
- Gwnewch yn siŵr bod y pethau da rydych chi'n eu gwneud yn para.



Rydym am sicrhau bod arian yn cael ei ddefnyddio'n ddoeth i ddiogelu natur a helpu pobl.

Cwestiynau

1. Beth ydych chi'n ei feddwl o'r egwyddorion newydd ar gyfer **buddsoddi** mewn natur?

Meddyliwch am y pethau hyn:

- A fydd y rheolau hyn yn helpu pobl i wneud dewisiadau da?
- A fydd y rheolau hyn yn ddefnyddiol i grwpiau gwahanol o bobl?
- Sut all pobl ddefnyddio'r rheolau hyn?
- A oes unrhyw beth ar goll o'r rheolau hyn?
- Sut mae'r rheolau hyn yn cyd-fynd â chynlluniau pwysig eraill?

2. Sut gallwn ni ddefnyddio'r egwyddorion newydd hyn i ddiogelu natur a chreu manteision i bobl?

Pethau i'w hystyried:

- Sut y gall y rheolau hyn ein helpu i ddefnyddio natur i ddatrys problemau?
- Beth yw'r ffyrdd gorau o ddefnyddio'r rheolau hyn i ddiogelu'r amgylchedd?
- Sut allwn ni sicrhau fod pawb yn elwa o ddefnyddio natur?

3. Ydych chi'n credu bod ein hegwyddorion newydd yn gweithio'n dda gyda rheolau eraill ynghylch diogelu natur?

Meddyliwch am yr enghreifftiau hyn:

- Rheolau ar gyfer buddsoddi mewn natur.
- Rheolau ar gyfer plannu coed.
- Rheolau ar gyfer diogelu mawndiroedd.
- Rheolau ar gyfer prynu a gwerthu pethau sy'n helpu natur.
- Rheolau ar gyfer diogelu bywyd gwylt.

4. Beth yw eich barn chi am ein cynllun i ddod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio arian i ddiogelu natur yng Nghymru?

5: Beth sy'n atal pobl yng Nghymru rhag helpu i ddiogelu natur?

6: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ddweud wrthym am ddiogelu natur a defnyddio arian yn ddoeth?

Geirfa

Awyrgylch:

Mae'n haen o nwyon sy'n ein hamddiffyn rhag pelydrau niweidiol yr haul ac yn helpu i gadw ein planed yn gynnes. Dyma hefyd lle rydyn ni'n cael yr aer rydyn ni'n ei anadlu.

Bioamrywiaeth:

Bioamrywiaeth – yr holl bethau gwahanol sy'n byw ar y Ddaear.

Carbon deuocsid:

Mae'n nwy y mae pobl ac anifeiliaid yn ei anadlu allan. Mae hefyd yn cael ei wneud pan fydd pethau'n llosgi, fel pren neu betrol.

Sinciau carbon:

Lleoedd sy'n storio carbon deuocsid yn naturiol. Maent yn rhannau pwysig o'n planed sy'n helpu i arafu newid yn yr hinsawdd. Fforestydd, cefnforoedd a phridd yw rhai o'r sinciau carbon mwyaf.

Newid yn yr hinsawdd: Mae ein planed yn mynd yn gynhesach nag arfer. Gall hyn achosi newidiadau mawr, fel mwy o stormydd, llifogydd neu sychder.

Ecosystem: Mae ecosystem yn cynnwys yr holl fioamrywiaeth a phethau sydd ddim yn fyw mewn ardal. Mae hynny'n cynnwys yr holl blanhigion, anifeiliaid a phethau byw eraill sy'n perthyn i gymunedau bywyd mewn ardal.

Yr amgylchedd: Dyna lle mae pobl yn byw. Y tir, y môr, yr awyr, a phopeth sy'n byw yno.

Diflanedig: Os nad oes un enghraifft o rywogaeth ar ôl yn fyw, mae'r rhywogaeth honno yn ddiflanedig. Mae hynny'n gyflwr parhaol: os yw rhywogaeth yn diflannu, mae wedi mynd am byth.

Nwyon Tŷ Gwydr: Mae nwyon tŷ gwydr fel blanced o gwmpas y tŷ sy'n dal gwres. Gall gormod o'r blanced hon wneud y tŷ (Ddaear) yn rhy gynnes.

Cynefin:

Mae'n lle arbennig lle mae planhigion ac anifeiliaid yn byw ac yn dod o hyd i bopeth sydd ei angen arnynt i oroesi, fel bwyd, dŵr a lloches.

Buddsoddiad:

Mae fel plannu had. Rydych chi'n rhoi arian (yr hadau) i mewn i rywbeth rydych chi'n meddwl fydd yn tyfu dros amser. Gallai fod yn fusnes, yn dŷ neu'n rhywbeth newydd a chyffrous hyd yn oed. Gyda gofal ac amser, gall eich buddsoddiad dyfu a bod yn werth mwy na phan ddechreuoch chi.

Llygredd:

Mae fel taflu sbwriel ym mhobman yn lle ei roi yn y bin. Mae'n gwneud y lle yn fudr ac yn afiach i bawb sy'n byw yno, gan gynnwys planhigion, anifeiliaid a phobl.